

Dyfodol Llwyddiannus

Yn edrych ar y Cwricwlwm a'r
Trefniadau Asesu yng Nghymru



Crynodeb o adroddiad yr Athro Graham Donaldson



Nod yr adolygiad yw “creu dyfodol llwyddiannus a chyffrous” i blant a phobl ifanc Cymru.

Ym mis Mawrth 2014, fe ofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Graham Donaldson edrych ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu mewn ysgolion yng Nghymru, a'u hadolygu.

Pam cael adolygiad?

Mae llawer o bethau da yn digwydd yng Nghymru ac rydyn ni eisiau adeiladu ar y rhain a gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael yr addysg orau bosibl.

Dyma grynodeb o'r adroddiad. Mae rhai o argymhellion yr Athro Donaldson i Lywodraeth Cymru eu hystyried i'w gweld yn y blychau glas.

Cwricwlwm?

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r un cwricwlwm gan bawb ond mae modd ei newid neu ei siapio i ddiwallu anghenion lleol. Felly mae Cymraeg, er enghraifft, yn bwnc sy'n cael ei addysgu yn ein hysgolion yng Nghymru. Mae newidiadau eraill yn gallu digwydd oherwydd pethau fel:

- datblygiadau newydd ym meysydd gwyddoniaeth neu ymchwil
- busnes a pheirianeg yn galw am sgiliau newydd
- technoleg newydd.

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi ceisio gwneud newidiadau i'r cwricwlwm i wneud yn siŵr ei fod yn gweddu i anghenion Cymru.

Trefniadau asesu?

Y tasgau a'r profion y mae athrawon yn eu gosod, ac arholiadau y mae byrddau addysg yn eu gosod, yw'r rhain. Maen nhw'n helpu athrawon i weld sut gynnydd y mae plant a phobl ifanc yn ei wneud, a gweld pan mae angen help ychwanegol arnyn nhw. Maen nhw hefyd yn helpu i ddangos lle y mae angen i'r ysgol wella.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:



dylai 'cwricwlwm' olygu'r holl brofiadau dysgu ac asesuadau y mae'r ysgol yn eu cynllunio.

Beth ddigwyddodd


Cafodd yr Athro Donaldson a'i dîm gyfarfodydd ledled Cymru er mwyn i ysgolion gael dweud eu dweud. Gwnaethon nhw gyfarfod ag athrawon, penaeithiaid, rheolwyr ysgol, staff a gweithwyr proffesiynol. Rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2014, gwnaethon nhw ymweld â thua 60 o ysgolion, gan gynnwys:

- ysgolion meithrin
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ac eraill.

Gwnaethon nhw siarad â phlant a phobl ifanc, rheini a gofalmwr, busnesau a grwpiau cymunedol ac eraill ledled Cymru.

Gwnaethon nhw edrych ar adroddiadau Estyn, polisïau Llywodraeth Cymru ac adroddiadau eraill.

Gwnaeth yr Adolygiad hefyd ofyn i bobl ddweud wrthon ni beth oedd yr agweddau gorau ar addysg yng Nghymru a beth oedd angen ei newid. Cymerodd fwy na 700 o bobl ran ac roedd 300 o'r rhain yn blant ac yn bobl ifanc.



Beth ddywedodd pobl

Dywedwyd pethau positif wrtho am:

- Y Cyfnod Sylfaen
- Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRH)
- Ar Drywydd Dysgu
- Bagloriaeth newydd Cymru
- Yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd.

Fodd bynnag, dywedodd athrawon wrtho, er enghraifft, y bydden nhw'n hoffi cael mwy o rym i wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i addysgu a beth i'w addysgu o fewn y cwricwlwm, ac nad oedd trefniadau asesu'n gweithio'n dda i gefnogi dysgu plant.


Dywedodd plant a phobl ifanc wrtho eu bod nhw'n meddwl bod y cwricwlwm ar ei hôl hi yn barod, yn enwedig o ran technoleg, meddalwedd a sgiliau digidol.

Roedden nhw eisiau mwy o ffocws ar sgiliau bywyd, hyder personol, sgiliau sylfaenol, sgiliau gwaith, cyngor gyrfa ac iechyd a lles.

Roedden nhw hefyd eisiau i wersi fod yn hwyl, yn ddiddorol ac nid yn rhywbeth a oedd yna i wneud dim mwy na phasio asesiadau neu ennill cymwysterau.

Dibenion cwricwlwm newydd

Dylai'r cwricwlwm fod â phedwar diben sy'n golygu y bydd yr holl blant a phobl ifanc:



Dylai'r dibenion 'fod yn sail i'r holl benderfyniadau yn y dyfodol am flaenoriaethau addysgol cenedlaethol a lleol, ac yn sylfaen i'r holl addysgu a dysgu yng Nghymru'.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:

 dylai'r cwricwlwm yng Nghymru fod â phedwar diben.

I gael gwybod mwy am beth y mae'r dibenion hyn yn ei olygu'n ymarferol, gwelwch dudalen 31 o'r [adroddiad llawn](#).

Strwythur y cwricwlwm

Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid cael 'chwe Maes Dysgu a Phrofiad'. Mae pob un o'r chwech yn bwysig a byddan nhw'n cyfrannu mewn ffyrdd gwahanol at y pedwar diben.

CELFYDDYDAU
MYNEGIANNOI

IECHYD
A LLES

DYNIAETHAU

IEITHOEDD,
LLYTHRENNEDD
A CHYFATHREBU

MATHEMATEG
A RHIFEDD

GWYDDONIAETH
A THECHNOLEG

I gael mwy o fanylion am bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad hyn, ewch i Bennod 4 yn yr [adroddiad llawn](#).

Sut bydd yn gweithio?

Bydd y chwe Maes Dysgu a Phrofiad hyn yn rhedeg o 3 tan 16 oed.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:



dylai'r cwricwlwm i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed gael ei drefnu'n chwe Maes Dysgu a Phrofiad a sicrhau profiad addysgol eang i bob plentyn a pherson ifanc.

Ar draws y cwricwlwm

Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai pob athro fod yn gyfrifol am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Mae'r rhain mor bwysig ar gyfer meddwl, dysgu a bywyd fel y dylid eu datblygu a'u cryfhau ar draws y cwricwlwm cyfan.

Bydd llythrennedd a rhifedd yn golygu mwy o lawer na bod â gallu sylfaenol.

Mae chwarae rhan lawn yn y gymdeithas a'r gweithle modern eisoes yn galw am sgiliau digidol o safon uchel, ac mae hyn yn siŵr o barhau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid datblygu fframwaith cymhwysedd digidol i sefydlu dilyniant mewn dysgu plant a phobl ifanc.



Sgiliau ehangach

Mae angen i blant a phobl ifanc gael amrywiaeth o 'sgiliau ehangach' sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd a gwaith modern. Mae'r rhain yn cynnwys:

- meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- cynllunio a threfnu
- creadigrwydd ac arloesedd
- effeithiolrwydd personol.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:



dylai cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ehangach fod yn rhan o bob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Camau Cynnydd

Dylai dysgu fod yn brofiad parhaus, sy'n cynyddu o dipyn i beth wrth i blant a phobl ifanc dyfu ac aeddfedu.

Mae'r adroddiad felly'n awgrymu nad yw'r ffordd o wahanu'r cwricwlwm yn gamau ac yn gyfnodau allweddol yn briodol mwyach.

Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid defnyddio Camau Cynnydd i ddisgrifio dysgu, gyda phob un yn cynnwys amrywiaeth o Ddeilliannau Cyflawniad.

Dylid nodi'r Camau Cynnydd hyn o fewn pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Dylid eu cynllunio mewn ffyrdd sy'n cynnig digon o le i'r rheiny sy'n datblygu sgiliau a gwybodaeth yn gynharach, a chymorth i'r rheiny sy'n gwneud cynnydd yn arafach.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:

-  dylid gosod y Camau Cynnydd ar bum pwynt, ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed
-  dylid ystyried y Camau Cynnydd fel 'map ffordd' personol i bob plentyn
-  dylid disgrifio Cyflawniadau o safbwynt y plentyn/person ifanc, gan ddefnyddio 'Rydwi wedi...' ar gyfer profiadau ac 'Rydwi'n gallu...' ar gyfer deilliannau.

Yr iaith Gymraeg

Mae llawer o bobl o'r farn bod y Gymraeg yn un o wir gryfderau'r system addysg. Fodd bynnag, mae angen cryfhau lle'r iaith Gymraeg yn y cwricwlwm.

Mae'r adroddiad yn awgrymu mwy o ffocws ar allu plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd, gyda phwyslais ar ei rôl gynyddol yn y gweithle.

Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyflogi arbenigwyr ac mae ganddyn nhw amrywiaeth ehangach o adnoddau Cymraeg ar gael. Maen nhw mewn sefyllfa dda i fod yn ganolbwyntiau ar gyfer y Gymraeg ac i ddarparu cymorth i ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:

-  dylai pawb ddysgu Cymraeg hyd at 16 oed
-  dylai ysgolion ganolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ffordd o gyfathrebu, o ran sgwrsio a deall
-  dylai Llywodraeth Cymru wneud i gymwysterau'r iaith Gymraeg yn 16 oed ganolbwyntio ar siarad a gwrando a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.



Mae'n bwysig gallu dewis pynciau ac mae'n cadw diddordeb pobl ifanc mewn dysgu.

Er bod pobl ifanc yn dechrau arbenigo a dewis pynciau, byddai pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rheiny rhwng 14 ac 16 oed, yn parhau i gael profiadau a chyfleoedd ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, a hefyd yn parhau i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, eu sgiliau rhifedd, eu cymhwysedd digidol a'u sgiliau ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr iaith Gymraeg
- iechyd a lles
- pynciau sy'n cefnogi dyfodol economi Cymru, er enghraifft gwyddoniaeth
- pynciau fel addysg grefyddol sy'n cyflawni rhai o'r pedwar diben.

Bydd rhai o'r rhaglenni hyn yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig ond fe allai gweithgareddau cynlluniedig eraill arwain at ffurfiau eraill ar gyflawniadau y gellid eu cydnabod mewn ffyrdd gwahanol.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:



dylai pob person ifanc rhwng 14 ac 16 oed ddewis cyrsiau o bob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad.



Mae dyheadau'r cwricwlwm newydd hwn yn galw am allu i farnu a sgiliau proffesiynol ymhlith athrawon wrth ddewis y dulliau addysgu iawn. Mae'r adroddiad yn awgrymu addysgu a dysgu sy'n canolbwyntio ar:

- ddibenion cwricwlwm
- herio plant a phobl ifanc i fod cystal â phosibl
- rhoi cyfleoedd i ddatrys problemau, i fod yn greadigol ac i feddwl yn feirniadol
- gosod tasgau ac adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a sgiliau
- creu cyfleoedd bywyd go iawn i ddysgu
- annog plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Ni chaiff y disgwyliadau uchel sy'n rhan annatod o'r Camau Cynnydd eu gwireddu oni bai bod yr addysgu'n effeithiol, gan fachu chwilfrydedd a brwdfrydedd plant a phobl ifanc trwy gymysgedd o ddulliau addysgu a dysgu.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:



dylai plant a phobl ifanc gael cyfleoedd i ddysgu oddi wrth arbenigwyr a chael profiadau y tu allan i'r ysgol hefyd.

Asesu

Mae'r adroddiad yn awgrymu gweithdrefnau asesu symlach yn ogystal â rôl gryfach i asesiadau gefnogi dysgu.

Mae asesu'n bwysig ar gyfer dysgu effeithiol ac adrodd ar gyflawniad. Y farn yw bod y trefniadau asesu presennol yn ddryslyd.

Mae asesu da'n galw am ddealltwriaeth eglur o'r hyn sydd i'w ddysgu a'r ffyrdd o gasglu tystiolaeth ynglŷn â chyflawniad.

Bydd cynnwys plant a phobl ifanc mewn asesu'n eu hannog nhw i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith asesu a gwerthuso cyffredinol. Ni ddylai ddibynnu ar brofion allanol neu fewnol sy'n methu ag adlewyrchu'r cwricwlwm.

Dylai'r trefniadau ar gyfer asesu fod mor ysgafn eu cyffyrddiad â phosibl.

Mae'r adroddiad yn awgrymu:

- dylai asesiadau annog plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain
- dylai plant a phobl ifanc allu datblygu eu e-bortffolio eu hunain ar-lein, gan gynnwys 'e-fathodynau' o bosibl, i gofnodi cyflawniadau a phrofiadau allweddol.

Goblygiadau

Mae hon yn ffordd newydd o feddwl am addysg.

Mae'r adroddiad yn awgrymu bod angen i ysgolion ac athrawon chwarae rhan fwy uniongyrchol mewn siapio'r cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion eu plant a'u pobl ifanc wrth i ni ddatblygu'r cwricwlwm. Dylid gwneud defnydd cynnil o unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth (y gyfraith) i wneud hyn yn bosibl.

Mae hyn oll yn galw am arweinyddiaeth ragorol ac ymrwymedig ar bob lefel yn y system addysg.

Nod yr argymhellion yw darparu cwricwlwm a threfniadau asesu a fydd yn diwallu anghenion a dyheadau addysg yng Nghymru.

I athrawon ac arweinwyr ysgolion mae yna oblygiadau mawr o ran datblygiad proffesiynol a hyfforddiant. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i estyn galluedd athrawon ym meysydd y Gymraeg, iechyd a lles, sgiliau digidol a chyfrifiadureg, yn ogystal â chynllunio'r cwricwlwm ac asesu.

I blant a phobl ifanc y nod yw creu profiad addysgol mwy diddorol a heriol a fydd yn eu helpu nhw i ffynnu a llwyddo.

I gyflogwyr fe fydd yn helpu i ddarparu gweithwyr sydd wedi'u haddysgu'n dda, gyda sgiliau ar gyfer y gweithle modern.

I rieni a gofalwyr mae'n golygu y byddan nhw'n gallu ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â dysgu eu plant.

Casgliad



Dyfodol Llwyddiannus yw enw'r adroddiad hwn gan mai dyna rydyn ni ei eisiau i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Diolch am ddarllen hwn.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Y Sgwrs Fawr



I wneud yn siŵr ein bod ni'n cael pethau'n iawn, rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi ar y syniadau yn yr adroddiad.

I gael gwybod mwy, ewch i'n hadran y Sgwrs Fawr ar wefan Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae yna rai cwestiynau i'w cwblhau ar-lein.

Cwblhewch yr

Cymerwch ran!

